# Panel y Cadeiryddion

## Cofnodion (POC(2)-09-06)

### 28 Tachwedd 2006, 18:30 – 19:10, Ystafell Bwyllgora 3 y Senedd

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Pwyllgor |
|---|---|
| Yr Arglwydd Elis-Thomas AC<br><br>Y Llywydd (Cadeirydd) | |
| Peter Black AC | Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |
| Ann Jones AC | Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Glyn Davies AC | Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| Gwenda Thomas AC | Cyfle Cyfartal |
| Rhodri Glyn Thomas AC | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Adrian Crompton | Pennaeth Dros dro Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau |
| Brian Davidge | Pennaeth TGCh |

#### Cyflwyniad

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Butler AC, Janice Gregory AC, Janet Davies a Sandy Mewies AC.

#### Eitem 1: Datblygu Cynaliadwy yn y Cynulliad newydd

1.1 Clywodd y Panel gyflwyniad gan Peter Davies, Is-gadeirydd a Helen Philips, Uwch-

ddadansoddwr Polisi Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru. Eglurodd Peter a Helen statws a ffocws y Comisiwn yng Nghymru. Roedd gan y Comisiwn allu ymchwil sylweddol ac roedd yn ceisio cyd-fynd ag argymhellion Adolygiad Beecham i'r graddau eu bod yn ymwneud ag agwedd trawsbynciol at waith craffu. Er ei fod yn atebol i'r Prif Weinidog yr oedd y Comisiwn yn ystyried ei hun yn annibynnol ac roedd yn cyhoeddi ymchwil a barn nad oedd bob amser yn cefnogi polisi'r Llywodraeth.

1.2 Cadarnhaodd Peter y byddai'r Comisiwn yn gallu cynghori Comisiwn y Cynulliad ar sut y gallai gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â datblygu cynaliadwy h.y. rhoi sylw penodol i'r egwyddor o hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth weithredu ei swyddogaethau.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

2.1 Cymeradwyodd y Panel gofnodion y cyfarfod blaenorol ar gyfer eu cyhoeddi.

## Eitem 3: Materion yn codi

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

## Eitem 4: Eitemau'r Cadeirydd

4.1 Cododd Peter Black y mater o dymheredd isel yn yr ystafelloedd pwyllgora, teimlad a adleisiwyd gan Rhodri Glyn Thomas. Nododd y Panel benodiad Gordon Brown, arbenigwr a fyddai'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch y tymheredd drwy'r Senedd.

4.2 Awgrymodd Peter Black y gellid cynnal cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal gyda'r Comisiynydd Plant ar 8 Mawrth er mwyn trafod ei adroddiad blynyddol. Cytunodd y Panel â'r cynnig hwn.

4.3 Nododd Rhodri Glyn Thomas ei rwystredigaeth y byddai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y Gwasanaeth Ambiwlans yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio cyn y Pwyllgor Iechyd. Dywedodd y Llywydd ei bod yn arferol i adroddiadau Pwyllgor Archwilio Cymru gael eu trin yn y ffordd yma.

Eitem 5: Fideogynadledda Dwyieithog

5.1 Eglurodd Brian Davidge gyfyngiadau technegol fideogynadledda mewn perthynas â gweithredu'n ddwyieithog. Nododd y Panel hyn a chafwyd trafodaeth ar sut y gallai dyletswydd y Cynulliad i ddwyieithrwydd gael ei gydbwyso yn erbyn y defnydd cynyddol o dechnoleg fideogynadledda a'r cyfleoedd cyffrous a gynigiwyd gan hyn eisoes.

5.2 Cytunodd Aelodau y dylai Brian a'i dîm wneud rhagor o waith ymchwil gyda'r nod eithaf o ddarparu system fideo gynadledda hyblyg a chwbl ddwyieithog.

## Eitem 6: Dyfodol Panel y Cadeiryddion

6.1 Cytunodd y Panel y dylai cyfarfodydd Panel y Cadeiryddion gael eu cynnal yn ôl y galw yn y dyfodol h.y. Byddai Cadeiryddion yn rhoi gwybod i'r Llywydd am unrhyw faterion yr hoffent eu trafod. Byddai'r Llywydd wedyn yn galw cyfarfod fel yr oedd yn briodol neu yn trefnu i ystyried y tu allan i bwyllgor.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Tachwedd 2006**